Geiriau i caneuon DRAIGI™

Hen Wlad fy Nhadau

Mae hen wlad fy nhadau yn annwyl i mi,
Gwlad beirdd a chantorion, enwogion o fri;
Ei gwrol ryfelwyr, gwladgarwyr tra mâd,
Tros ryddid gollasant eu gwaed.

Chorus:

Gwlad, Gwlad, pleidiol wyf i'm gwlad,
Tra môr yn fur i'r bur hoff bau,
O bydded i'r heniaith barhau.

Ar Hyd Y Nos

Holl amrantau'r sêr ddywedant,
Ar hyd y nos,
'Dyma'r ffordd i fro gogoniant,
Ar hyd y nos.
Golau arall yw tywyllwch,
I arddangos gwir brydferthwch
Teulu'r nefoedd mewn tawelwch,
Ar hyd y nos

O mor siriol gwena seren,
Ar hyd y nos,
I oleuo'i chwaer ddaearen,
Ar hyd y nos,

Nos yw henaint pan ddaw cystudd,

Ond i harddu dyn a'i hwyrdydd,
Rhown ein goleu gwan i'n gilydd,
Ar hyd y nos.

Calon Lân

Nid wy'n gofyn bywyd moethus,
Aur y byd na'i berlau mân:
Gofyn wyf am galon hapus,
Calon onest, calon lân.

Cytgan:
Calon lân yn llawn daioni,
Tecach yw na'r lili dlos:
Dim ond calon lân all ganu-
Canu'r dydd a chanu'r nos.

Sosban Fach

Mae bys Meri-Ann wedi brifo,
A Dafydd y gwas ddim yn iach.
Mae'r baban yn y crud yn crio,
A'r gath wedi scrapo Joni bach.
Sosban fach yn berwi ar y tân,
Sosban fawr yn berwi ar y llawr,
A'r gath wedi scrapo Joni bach

Dai bach y sowldiwr, Dai bach y sowldiwr,
Dai bach y sowldiwr, a gwt ei grys e mas

Mae bys Mari Ann wedi gwella,
A Dafydd y gwas yn ei fedd;
Mae'r baban yn y crud wedi tyfu,
A'r gath wedi huno mewn hedd.
Sosban fach yn berwi ar y tân
Sosban fawr yn berwi ar y llawr
A'r gath wedi huno mewn hedd